DATGANIAD I'R WASG DRAFFT
Dydd Iau 3 Mehefin 2010

CADAIR ER COF AM DIC

Teulu'r diweddar Archdderwydd Dic Jones sy'n rhoi cadair Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion heddiw, a hynny er cof amdano.

Ychydig wythnosau cyn ei farw bu'r Archdderwydd yn trafod ei weledigaeth ar gyfer y gadair gyda'r gwneuthurwr a ffrind mawr iddo, Glan Rees. Mae'r gadair orffenedig yn dangos gweledigaeth yr Archdderwydd yn amlwg mewn cyfres o ddelweddau trawiadol.

"Roedd Dic yn bendant iawn mai cadair syml, fodern ddylai hon fod," medd Glan sy'n byw yn Nhreftraeth ac yn gyn-brifathro Ysgol Bro Ingli. "Ar yr olwg gyntaf, mae hon yn gadair syml ond o edrych yn fwy gofalus, fe welwch ddelweddau cryf a phendant iawn; ffrwyth sgwrs gyda Dic, Jean ei wraig a minnau rhyw fis cyn i ni golli Dic.

"Y ddelwedd amlycaf yw'r un o ffenestr - sydd wedi ei wneud o wydr lliw – a honno'n edrych i'r dyfodol. Mae'r gwydr yn dangos delweddau amaethyddol, megis tywysen yn ogystal ag arfordir Sir Aberteifi, oedd oll mor bwysig i Dic.

"Gofynnodd Dic i mi ddangos y dywysen wedi ei phlygu, a hynny i ddangos ei barch mawr ef at y beirdd ifanc. Roedd yn aml yn dweud wrtha'i gymaint o barch yr oedd ganddo at y beirdd ifanc a'r hyn y maent yn ei gyflawni. Ac ar gefn y gadair, mae cwpled o eiddo Dic o'i gerdd, 'Y Gamp'. Mynnodd mai ar gefn y gadair y byddai'r geiriau yma ac nid ar y blaen."

"Mae'r gadair wedi ei gwneud o barch a chariad at Dic," medd Jean, gweddw Dic Jones. "Roedden ni'n ffodus fod Glan wedi dod i'n gweld pan ddaeth e. Roedd Dic yn ei bethe ac fe gawsom ni drafod y steil a'r delweddau a dwi'n gwybod y bydde Dic wrth ei fodd efo'r gadair orffenedig."

Fe roddir y gadair am gyfansoddi cerdd gaeth neu rydd, heb fod dros 100 llinell ar y testun, Tonnau, ac fe gynhelir y seremoni heddiw, (dydd Iau, 3 Mehefin 2010) am 2.30pm. Y beirniaid yw Gwenallt Llwyd Ifan a Fflur Dafydd a Meistr y ddefod fydd Gareth James. Bydd wyrion Dic Jones, Bedwyr, Peredur, ac Ynyr Lloyd Jones hefyd yn rhan o'r seremoni.

"Rydym yn ddiolchgar iawn i deulu'r diweddar Archdderwydd Dic Jones am roddi'r gadair yma i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, 2010 er cof amdano," medd Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru. "Mae'n braf ein bod yn gallu dathlu cyfraniad Dic Jones i'w ardal a'i wlad tra bod yr Eisteddfod yn y fro oedd yn golygu cymaint iddo. Dic Jones yw'r unig un i ennill Cadair Eisteddfod yr Urdd bum gwaith yn olynol a braf fydd cydnabod y gamp honno, a'r anrhydeddau eraill a ddaeth i'w ran fel bardd, heddiw."

Noddir y seremoni heddiw gan Ymddiriedolaeth Ivor ac Aeres Evans.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360

Nodiadau i Olygyddion
Y gwpled o waith Dic Jones sy'n ymddangos ar gefn y gadair yw
"A wêl y gamp geilw i go' swyn y Gymdeithas honno," *Y Gamp* gan Dic Jones

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Thursday 3 June 2010

CHAIR IN MEMORY OF ARCHDRUID

Today, at the Urdd National Eisteddfod in Ceredigion, the chair which will be donated in memory of the Archdruid Dic Jones, by his family.

A few weeks before he died last year, the Archdruid discussed his vision for the chair with the carpenter and great friend of the family, Glan Rees. The Archdruid's vision can be seen in a series of striking images on the finished chair.

"Dic was adamant that it should be a simple, modern chair," said Glan who lives in Newport, Pembrokeshire and is the former head teacher of Ysgol Bro Ingli. "At first glance this is a simple chair but if you take a closer look, you'll see the strong images. These are the result of a conversation Dic, Jean, his wife and I had about a month before Dic died.

"The most obvious image is that of the window – made of stained glass – which looks to the future. In the glass you can see agricultural images, such an ear of corn as well as the Cardiganshire coast, which were so important to Dic.

"Dic asked me to depict the ear of corn as curved and bowed. This was to show his admiration for the young bards. He used to say to me how much he admired the young poets and their achievements. On the back of the chair, there's a couplet from one of Dic's poems, *Y Gamp*. Dic insisted this be placed on the back of the chair and not the front."

“This chair has been created out of respect and love for Dic,” said Jean, Dic Jones’ widow. “It was fortunate that Glan came to see us when he did. Dic was in good spirits and we had a discussion about the style and imagery and I know Dic would be delighted with the finished product.”

The chair is given as a prize for a poem, in strict measure or free verse, without being over 100 lines on the subject, Waves. The ceremony will be held today (Thursday, 3 June 2010) at 2.30pm. The adjudicators are Gwenallt Llwyd Ifan and Fflur Dafydd and Master of the Ceremony will be Gareth James. Dic Jones’ grandsons, Bedwyr, Peredur, and Ynyr Lloyd Jones will also take part in the ceremony.

“We’re very grateful to the late Archdruid Dic Jones’ family for their gift of the Urdd National Eisteddfod, 2010 chair in his memory,” said Aled Siôn, Director of the Urdd National Eisteddfod. “With the Eisteddfod in this part of the world, which meant so much to Dic Jones, it’s an honour to be able to celebrate his contribution to this area and his country. Dic Jones is the only person to have won the Urdd National Eisteddfod Chair five times consecutively and we will celebrate this remarkable achievement as well as his other accomplishments today.”

The ceremony will be sponsored by the Ivor and Aeres Evans Trust.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360

Notes to Editors
The following couplet of Dic Jones’ work appears on the back of the chair:
“A wêl y gamp geilw i go’ swyn y Gymdeithas honno,” *Y Gamp* by Dic Jones

- Urdd Gobaith Cymru is Wales’ leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.